

Canllaw Gwirfoddoli ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol

Mae'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol (NVCO) yn diffinio gwirfoddoli fel unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys treulio amser, heb dâl, yn gwneud rhywbeth er lles yr amgylchedd neu rywun (unigolion neu grwpiau).

Mae croeso i bob myfyriwr rhyngwladol, gan gynnwys myfyrwyr cyfnewid, i wirfoddoli tra yma yn Aberystwyth ac rydym yn eich annog i fod yn rhan! Fodd bynnag, mae'n bwysig deall y gwahaniaeth rhwng gwirfoddoli a gwaith gwirfoddol cyn ymgeisio am rôl. Y rheswm dros hyn yw nad yw myfyrwyr sydd ar Fisa Ymwelydd (*Visitor Visa*) yn cael cymryd gwaith gwirfoddol, ac or ran y rhai sydd â Fisa Myfyrwyr, mae gwaith gwirfoddol yn cyfrannu tuag at gyfanswm yr oriau y gallwch weithio bob wythnos er mwyn bodloni amodau eich fisa.

Mae [Cyngor ar gyfer Materion Myfyrwyr Rhyngwladol yr DU \(UKCISA\)](#) yn diffinio'r canlynol:

Gwirfoddoli

- Does gennych chi ddim contract. Mae hyn yn golygu na ddylai fod gennych oriau neu ddyddiau sefydlog rheolaidd lle rydych chi'n gofyn i roi eich amser o'ch gwirfodd.
- Ni allwch chi gymryd lle gweithiwr arall a ni chewch chi gael eich talu na derbyn tâl ar gyfer y gwaith gwirfoddoli rydych chi'n ei gymryd. Fodd bynnag, gallwch gael eich talu yn ôl ar gyfer costau rhesymol fel teithio a bwyd.

Mae enghreifftiau o gweithgareddau gwirfoddoli untro yn cynnwys, aelodau pwyllgor clwb/cymdeithas, cynrychiolwyr academaidd, swyddogion gwirfoddol, cynorthwywyr i gymheiriaid, yr A-Tîm, rolau codi arian ayyb.

Gwaith Gwirfoddol (di-dâl)

- Fel arfer, bydd gennych rwymedigaethau cytundebol er mwyn cyflawni'r gwaith. Mae hyn yn golygu byddwch chi wedi cytuno ar oriau a dyddiau y byddwch chi'n gweithio.
- Yn ôl y cytundeb, bydd rhaid i'r cyflogydd ddarparu'r gwaith, ond does dim rhaid cael contract ysgrifenedig.
- Efallai y byddwch yn derbyn rhyw fath o dâl/ad-daliad

Gan amlaf mae enghreifftiau o waith gwirfoddol yn cynnwys oriau sefydlog rydych chi'n cytuno arnynt ymlaen llaw, gallai hyn gynnwys gweithio mewn siop elusen neu helpu mewn sesiynau grŵp ieuencid ond eu bod bob tro ar ddiwrnod neu amser penodol. Mae wastad yn werth siarad â'r sefydliad ynglŷn â'r fath o wirfoddoli maent yn ei gynnig. Bydd unrhyw fath o waith di-dâl neu wirfoddol yn cyfrannu tuag at yr 10 – 20 o oriau y cewch chi weithio yn unol â Fisa Myfyrwyr.

Canllaw Fisa

Tri mis cyn y dyddiad eich bod chi'n bwriadu cyrraedd yw'r cynharaf y gellir ymgeisio am fisa i'r DU. Cofiwch hefyd y gall gymryd tair wythnos i'ch fisa gael ei brosesu. Mae UKCISA wedi rhoi gwybodaeth glir at ei gilydd ynghylch cyngor ar ba fath o waith y gallwch ei wneud er mwyn bodloni cyfrifoldebau eich fisa. Gallwch weld hyn trwy fynd i'r wefan ganlynol:
<https://www.ukcisa.org.uk/Information--Advice/Working/Student-work>

Os byddwch angen cyngor ar amodau fisa ac ar amddiffyn eich statws yn y DU, cysylltwch â - immigrationadvice@aber.ac.uk

Os bydd angen unrhyw help arnoch i ddod o hyd i neu ddysgu am gyfleoedd gwirfoddoli, yna e-bostiwch ein Cydlynnydd Gwirfoddoli – suvolunteering@aber.ac.uk